

❖ DARLUNIAU BYW

Eseia 65

Mewn cyfnod sy'n rhoi'r pwys a'r gwerth mwyaf ar y gallu i werthu cynnyrch, syniad neu weledigaeth mewn ffordd syml, bwerus a llawn dychymyg, cyfnod lle mae'r crëwr delweddau yn frenin, mae'n dda cael ein hatgoffa bod eraill ar draws y canrifoedd wedi bod yr un mor dalentog yn y busnes o greu delweddau. Rhai na chafodd fanteision technolegol yr unfed ganrif ar hugain, na derbyn arian mawr am eu sgiliau ac am wneud mwy na jyst diddanu'r cyhoedd.

Un ohonynt oedd y proffwyd Eseia 2,500 o flynyddoedd yn ôl. Ef, yn sicr, oedd Bob Dylan neu Steven Spielberg ei ddydd. Darllenwch benodau olaf ei broffwydoliaeth ac fe gewch eich cyfareddu gan bŵer, disgleirdeb a chyfoeth ei ddelweddau. Dro ar ôl tro mae'n troi geiriau cyffredin yn ddarluniau byw, gan ddangos Duw yn lliwiau ysblennydd yr enfys.

Ym mhennod 65 mae'n cyrraedd yr uchafbwynt, er i ni gael sawl awgrym o'r peth yn y penodau blaenorol, gyda gweledigaeth am ddiwedd yr hen drefn a dechrau rhywbeth cwbl newydd – 'Yr wyf fi'n creu nefoedd newydd a daear newydd.' A dyma i chi weledigaeth aruthrol – diwedd ar boen, tristwch ac afiechyd, pobl yn cael mwynhau bywyd hir, diogelwch, sefydlogrwydd, cyfiawnder, heddwch a chyfanrwydd. Pa ryfedd ei fod yn dweud wrth y bobl, 'Byddwch lawen, gorfoleddwch yn ddi-baid.' Dyma obaith yr Adfent yn wir. Hyn sydd i fod ac mae ar ei ffordd.

'Ond,' medd dyn yr unfed ganrif ar hugain, 'pryd?'

Mae cymaint o ddelweddu heddiw yn ymwneud â nawr, y funud 'ma! Cymaint ohono yn creu galw ar gyfer y foment hon, ac yn addo ei wireddu'n syth.

'I want it all, I want it all, I want it all, and I want it now,' chwedl y diweddar Freddie Mercury!

'Pam aros tan yfory, pan ellir ei gael heddiw?' 'Byw i'r foment.'

'Taking the waiting out of wanting,' fel dwedodd rhywun.

Pwyslais gwahanol iawn sydd i'r Adfent. Aros sydd wrth wraidd ei neges. Ein gwahodd i ddysgu aros mae'r Adfent; aros yn amyneddgar.

Mae unrhyw un sydd wedi teithio yn y byd datblygol yn gwybod rhywbeth am amynedd rhyfeddol y tlawd. Pobl ydynt sydd wedi dysgu sut i aros, sut i fod yn amyneddgar.

Mewn cymunedau amaethyddol rhaid aros am y glawogydd, aros am y tymhorau hau a phlannu ac aros i'r tir ddwyn ffrwyth.

Aros i brynu beth sydd ar gael, ac yn aml aros yn ofer am fod prinder. Aros wrth y ffynnon i dynnu dŵr; yn y farchnad i werthu cynnyrch; wrth y checkpoint a'r ffin i groesi; aros am waith, am feddyginiaethau, i wrthdaro ddod i ben er mwyn cael mynd adref, ac wrth gwrs uwchlaw popeth arall aros am gyfiawnder.

Pan ofynnwyd i Oliver Tambo beth oedd yn ei gynnal ef drwy'r blynyddoedd a dreuliodd yn y carchar yn Robben Island am wrthwynebu apartheid, ei ateb oedd, 'Amynedd a ffydd.' Mae'r Adfent yn ein dysgu ni bod yn rhaid rhannu yn aros amyneddgar y tlawd, wrth iddynt ddisgwyl am fyd mwy cyfiawn ac wrth iddynt ymdrechu i'w ddwyn i fod.

Wrth gwrs mae hynny'n anodd, a'n tueddiad yw gofyn y cwestiynau: Pam fod Duw yn oedi? Pam fod yn rhaid i'r tlawd barhau i waedu am gyfiawnder 2,500 o flynyddoedd wedi addewid Eseia a 2,000 o flynyddoedd ar ôl dyfodiad Iesu? Pam nad yw Duw yn dwyn i fod y byd y mae Eseia yn sôn amdano, nawr? Pam na chaiff dynoliaeth gyfan ffynnu heddiw? Pam fod rhaid i filiynau ddal i farw o newyn, ffoi i wersylloedd ffoaduriaid, byw gyda HIV, dioddef effeithiau newid hinsawdd a masnach anghyfiawn a chario baich dyledion na ellir mo'u had-dalu, a Duw fel petai yn oedi?

Does gen i ddim atebion, ac rwyf eto i gael fy argyhoeddi gan unrhyw un arall fod ganddynt atebion, ond o leiaf rhaid byw gyda'r cwestiynau a'u cymryd o ddifrif.

Ond mae rhannu disgwyliad y tlawd yn golygu rhannu hefyd yn eu hawydd am fyd gwell a mwy cyfiawn, a gwneud popeth a allwn i frysio ei ddyfodiad.

Yn sicr, nid peth goddefol yw aros, oherwydd ymhlŷg yn y disgwyl y mae'r alwad i weithio i wireddu gweledigaeth Eseia.

Un peth mae disgwyl yn ei wneud yw rhoi'r amser i ni feddwl a dyfnhau ein dealltwriaeth ynglŷn â

sut mae Duw yn dod yn hytrach na gofyn pryd.

Beth yn ni'n disgwyl amdano? Ai rhyw 'super-hero' dwyfol yn hedfan i mewn o'r tu allan i ddelio â'n llanast ni? Os felly, druan ohonom – dydyn ni ddim yn haeddu byd tamaid gwell nag sydd gennym nawr!

Mae Duw wedi dangos yn glir yn yr ymgnawdoliad sut mae e'n dod – wrth ddod atom ar ffurf dynoliaeth – 'gwedd dynion', chwedl Paul. Onid dyna'r allwedd i ddeall yr Adfent, dyfodiad Duw eto? Yn a thrwy ddynoliaeth y mae Duw yn parhau i ddod atom.

Daw atom trwy Cymorth Cristnogol: ein cefnogwyr a'n partneriaid, daw trwy Tearfund, Cafod, Oxfam ac unrhyw fudiad neu unigolyn sy'n gweithio i wireddu gweledigaeth Eiseia. Mae Duw yn dod trwoch chi a fi pan ydym ni'n byw'r hyn mae'n ei olygu i fod yn wir ddynol, pan ein bod ni'n byw bywyd Iesu.

Wrth i ni weithredu'r weledigaeth yn ein bywyd bob dydd yr ydym yn cyhoeddi bod Duw wedi dod, ac yn ei alluogi Ef i ddweud o'r newydd, 'Yr wyf fi wedi creu nefoedd newydd a daear newydd... byddwch lawen, gorfoleddwch yn ddi-baid am fy mod i wedi creu.'

Robin Samuel